Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ms Jan Williams
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Ysbyty'r Eglwys Newydd
Park Road
Caerdydd
CF14 7XB

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

26 Hydref 2011

Annwyl Ms Williams,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr Adolygiad ar ben

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhellion 4 (gwybodaeth bersonol cleifion) a 12 (gwybodaeth a sgiliau) o'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r trydydd ymateb, sef yr un olaf, yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan.

Fel y gwyddoch, yn sgil y trydydd ymateb gofynnais am ragor o eglurhad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghylch yr amserlenni ar gyfer adolygu ymweliadau â'r ward, diweddaru'r matrics hyfforddiant gorfodol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi'i sefydlu. Ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn brydlon i'm cais ac mae'r wybodaeth wedi'i rhoi.

Rwy'n fodlon ar drydydd ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'n ymdrin yn fanylach â'r materion y gofynnais am ragor o wybodaeth amdanyn nhw.

Gan fod eich trydydd ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir â phob un o'm hargymhellion, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 08442 640670 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,

Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru